

ATODIAD / ENCLOSURE CH

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

PWYLLGOR	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	9 Mawrth 2011
TEITL YR ADRODDIAD	Adolygu mynediad i ardaloedd cefn swyddfa gan Aelodau Etholedig
ADRODDIAD GAN	Huw Pierce Pritchard, Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am yr adolygiad o hawliau mynediad i ardaloedd cefn swyddfa a materion diogelu data cysylltiedig

Rhagarweiniad

1. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar gais y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn dilyn adolygiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau mynediad cyfredol i swyddfeydd y Cyngor lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i defnyddio.
2. Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2010 yn dilyn, fe ymddengys, achos o dorri rheolau diogelwch data yn sgil cael mynediad i Swyddfeydd y Gwasanaethau Tai ac yn dilyn cwynion gan Swyddogion ynghylch mynediad heb ganiatâd gan Aelodau i swyddfeydd lle cedwir a defnyddir gwybodaeth sensitif a phersonol.
3. Er nad yw'r adolygiad wedi gwahaniaethu rhwng Aelodau a Swyddogion, ac er bod casgliadau'r adroddiad yr un mor berthnasol i Gynghorwyr Sir a Swyddogion fel ei gilydd, nid yw'r adroddiad hwn ond yn ystyried hawliau mynediad Cynghorwyr i swyddfeydd.
4. Fel rhan o'r adolygiad, ymgynghorwyd gydag amrediad o awdurdodau lleol eraill yn Lloegr a Chymru. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn cymryd i ystyriaeth y gofynion statudol a hefyd yr arferion gorau yn y sector cyhoeddus.
5. Gwneir nifer o argymhellion gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Diogelu Data 1998 ac i leddfu risgiau i ddiogelwch gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.

Cefndir

6. Deddf Diogelu Data 1998 yw'r prif yrrwr statudol ar gyfer newid yn y ffordd o gasglu, storio a chael mynediad i ddata personol. Dywed y Ddeddf:

Appropriate technical and organisational measures shall be taken against unauthorized or unlawful processing of personal data and against accidental loss or destruction of, or damage to, personal data.

7. Mae deddfau hefyd eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth benodol, gan gynnwys gwybodaeth am droseddau. Yn ogystal, gall y rheini sy'n cael eu heffeithio gan fynediad anawdurdodedig i wybodaeth a defnydd anawdurdodedig o wybodaeth wneud cais i unioni materion torri cyfrinachedd yn y ffordd draddodiadol trwy gyfraith gyffredin.
8. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn cynnwys nifer o droseddau ac yn Ebrill 2010 rhoddwyd grym i'r Comisiynydd Gwybodaeth ddirwyo sefydliadau.
9. Yn ei Ganllawiau, dywed y Comisiynydd Gwybodaeth y dylid rhoi dirwyon pan fo'r hyn a wnaed yn fwriadol, yn anwybyddu risg ac yn achosi gofid gwirioneddol. Yn mis Tachwedd 2010, rhoddwyd dirwy o £100,000 i Gyngor Sir Hertfordshire a dirwy o £60,000 i gwmni sector preifat dan y pwerau hyn.
10. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dweud y bydd yn rhoi rhybudd cosb ariannol lle mae sefydliadau yn "*contravene the data protection principles and the contravention was of a kind likely to cause substantial damage or substantial distress*".
11. Roedd yr adolygiad yn dangos y gallai'r achos o dorri rheolau data yn y Gwasanaethau Tai fod wedi arwain at gamau gorfodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chosbau personol yn erbyn yr unigolion dan sylw.
12. Mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau sefydliadol ar gyfer diogelwch gwybodaeth bersonol a chymryd camau i rwystro niwed i unigolion o ganlyniad i dorri'r Ddeddf a rhaid iddo hefyd warchod y Cyngor rhag cosbau ariannol a fyddai'n codi yn sgil hynny.
13. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i'r Cyngor weithredu cosbau disgyblu os bydd Aelodau yn camddefnyddio gwybodaeth yn fwriadol neu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda threfniadau i ddiogelu gwybodaeth. Dylai aelodau ddeall y gall camddefnydd bwriadol neu ddi-hid o wybodaeth bersonol arwain at gymryd camau disgyblu.
14. Yn ogystal, y Cyngor hwn oedd yr awdurdod lleol cyntaf i arwyddo Addewid Gwybodaeth Bersonol y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2009. Bwriad yr Addewid yw cynorthwyo i atgyfnerthu hyder a ffydd y cyhoedd yn y ffordd y mae sefydliadau yn trin eu gwybodaeth bersonol. Mae'r Addewid yn nodi y bydd y Cyngor yn cymryd camau disgyblu cadarn os oes angen.

Mynediad i Swyddfeydd

15. Ceir mynediad i swyddfeydd ar hyn o bryd trwy gerdyn 'sweip' a chaniateir mynediad i'r Aelodau i'r rhan fwyaf o'r swyddfeydd a'r ystafelloedd cyfarfod. Fodd bynnag, cyfyngir ar fynediad y cyhoedd i'r swyddfeydd.
16. Mae'r Cyngor yn cadw cronfa ddata sy'n nodi'r defnydd a wnaed o'r cardiau hyn i gael mynediad i wahanol swyddfeydd. Fel rhan o'r adolygiad, edrychwyd ar y cofnod o ba ddrysau a agorwyd gyda'r cardiau hyn yn y Gwasanaeth Tai.
17. Mae'r cofnod yn dangos bod Aelodau wedi ymweld ag ardaloedd cefn swyddfa'r Gwasanaeth Tai ar 91 o achlysuron gwahanol rhwng 1 Ionawr 2010 a 4 Tachwedd 2010. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw rhwng Aelodau a Staff a Gwasanaeth mewn ystafelloedd cyfarfod. Mae'r lefel hon o fynediad i swyddfeydd yn lefel o risg nad yw'n gydnaws â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

18. Ar ôl ymgynghori'n eang gydag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr (Tachwedd 2010), gwelwyd bod llawer o Gynghorau yn dibynnu ar eu protocolau a'u polisïau i gyfyngu ar amllder ymweliadau o'r math a nodir uchod. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y gall hunanreoleiddiad fod yn ateb i broblem sydd, fe ymddengys, yn ymwneud yn y bôn â'r diwylliant yn y sefydliad.
19. Mae'r Cyngor yn rheoli mynediad i rai ardaloedd lle ystyrir bod risg o fynediad heb awdurdod. Mae hynny'n golygu y byddai'n rhaid i'r rheini a chanddynt gerdyn fod gyda hawliau mynediad penodol er mwyn mynd i mewn i'r ardal y mae cyfyngiad arni. Ar hyn o bryd, mae cyfyngiad ar fynediad i'r Adran TGCh a Gwasanaethau Adnoddau Dynol. Rheolir hawliau mynediad yn y meysydd gwasanaeth hyn yn bennaf oherwydd arferion gorau yn y meysydd penodol hyn. Fodd bynnag, y gofyniad statudol cyffredinol yn hyn o beth yw seithfed egwyddor Diogelu Data yn y Ddeddf Diogelu Data.
20. Cynhaliwyd yr adolygiad yn seiliedig ar risgiau, a sefydlwyd mai'r risg fwyaf i'r Cyngor yw'r meysydd gwasanaeth hynny lle mae gwybodaeth sensitif iawn a gwybodaeth bersonol a chyfrinachol yn cael eu prosesu. Yr ardaloedd perthnasol yn hyn o beth yw'r Gwasanaeth Tai; Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol. Gall unrhyw un â chanddo/chanddi gerdyn gael mynediad i'r meysydd gwasanaeth hyn p'un a oes gan yr unigolion hyn reswm busnes dilys i fod yno ai peidio.
21. Dylid cyfyngu mynediad i feysydd risg uchel cyn gynted ag y bo modd a chaniatáu'r mynediad yn unig ar gyfer y rheini gyda rheswm busnes dilys i fod yno. Nid oes angen i'r Aelodau gael mynediad i'r ardaloedd hyn. Nid yw'n debygol y byddai cael gwared ar yr hawliau mynediad otomatig a chynhwysfawr hyn sydd gan aelodau yn rhwstr i weithio effeithiol.
22. Gall cyfyngu mynediad greu rhai anawsterau logistaidd ac mae'r rheini'n cael sylw ar hyn o bryd. Mae'n debygol mai cyfyngu mynediad yn raddol fyddai fwyaf effeithiol yn y tymor hir.
23. Ymchwilir hefyd i gostau gweithredu'r gwelliannau hyn.
24. Dylid rhoi sylw'n gyntaf i'r trefniadau mynediad i'r Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid rhoi sylw i'r gwasanaethau risg uchel sy'n weddill ar ôl trafodaeth gyda phenaethiaid gwasanaeth.
25. Mae'n berthnasol bod gan yr ardaloedd a nodir uchod, ac eithrio'r Gwasanaethau Cyfreithiol, dderbynfeydd ac ystafelloedd cyfarfod.
26. Mae'r diwygiadau i'r protocol Aelodau / Swyddogion yn ceisio cyfyngu ar nifer y cyfarfodydd ad-hoc a chael, yn hytrach, gyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw.

Casgliadau

27. Dylai'r Cyngor weithredu'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'r trefniadau cyfredol er mwyn gostwng y risg o dorri rheolau diogelwch data ac o gael dirwyon trwm am beidio â chydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 ac arferion gorau.

Argymhellion

28. Bod y Cyngor yn cyfyngu ar hawliau mynediad aelodau i'r meysydd gwasanaeth risg uchel, sef y Gwasanaeth Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol.
29. Bod y Cyngor yn paratoi, i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad, brotocol priodol mewn perthynas â hawliau mynediad Aelodau i ardaloedd cefn swyddfa.